

Polisi datgelu

Mae'r polisi datgelu hwn yn amlinellu ein dull o ddatgelu a chyhoeddi gwybodaeth.

Statws y ddogfen: Cymeradwywyd
Fersiwn: 4
Dyddiad cymeradwyo: 30 Ionawr 2024
Yn weithredol o: Chwefror 2024
Perchennog: Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth
Awdur: Swyddog Llywodraethu Gwybodaeth a Phrif Swyddog Cyfreithiol
Dyddiad adolygu nesaf arfaethedig: Chwefror 2027

Cynnwys

2.	Datganiad Polisi.....	2
3.	Pwrpas.....	2
4.	Cwmpas.....	2
5.	Ein Dull Cyffredinol o Gyhoeddi a Datgelu Gwybodaeth	3
6.	Gwybodaeth gan sefydliadau eraill.....	5
7.	Datgeliadau yn y broses addaswydd i ymarfer.....	5
8.	Cofrestr y Cyngor Optegol Cyffredinol.....	16
9.	Llythyrau o Statws Da/Tystysgrif Statws Proffesiynol.....	16
10.	Golygu	16
11.	Storfa Rhyngryd.....	16

2. Datganiad Polisi

2.1. Ni yw'r rheoleidiwr ar gyfer y proffesiynau optegol yn y DU. Mae gennym bedair swyddogaeth graidd:

- gosod safonau ar gyfer perfformiad ac ymddygiad ein cofrestrwyr;
- cymeradwyo cymwysterau sy'n arwain at gofrestru;
- cadw cofrestr o unigolion a chyrrff corfforaethol sy'n addas i gael eu cofrestru;
- ymchwilio a chymryd camau os bydd amhariad ar addasrwydd cofrestreion i ymarfer, hyfforddi neu gynnal busnes.

2.2. Fel rhan o'n gwaith rheoleiddio, rydym yn cyhoeddi ac yn datgelu gwybodaeth. Mae gennym gyfrifoldeb cyfreithiol i sicrhau ein bod ni'n defnyddio data personol yn gyfreithlon, sicrhau ei fod yn cael ei rheoli'n briodol, a sicrhau bod hawliau unigolyn yn cael eu parchu. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod ein sefydliadau partner hefyd yn glynu wrth deddfwriaeth diogelu data.

3. Pwrpas

3.1. Pwrpas y polisi hwn yw nodi sut mae'r Cyngor Optegol Cyffredinol yn bwriadu sicrhau dull cyson, tryloyw a theg o ddatgelu gwybodaeth. Mae'n nodi ein dull o gyhoeddi a datgelu gwybodaeth sy'n ymwneud â swyddogaethau statudol y Cyngor Optegol Cyffredinol. Bydd hyn yn ein helpu ni i rannu gwybodaeth yn gyfreithlon a sicrhau ein bod ni a'n sefydliadau partner yn gallu cyflawni ein dyletswyddau'n effeithiol.

3.2. Bydd y polisi'n sefydlu ac yn rheoleiddio arferion gweithio rhyngom ni a'n sefydliadau partner a bydd yn darparu canllawiau i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei throsglwyddo'n ddiogel a bod yr wybodaeth yn cael ei rhannu at ddibenion cyfreithiol y gellir eu cyfiawnhau.

3.3. Nod y polisi hwn:

- nodi'r cyfreithiau diogelwch a chyfrinachedd, ac egwyddorion rhannu gwybodaeth;
- cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r materion allweddol sy'n ymwneud â rhannu gwybodaeth;
- rhoi arweiniad ar sut mae rhannu gwybodaeth yn gyfreithlon;
- annog rhannu gwybodaeth yn ddiogel ac yn effeithlon;
- atal data personol rhag cael ei ddefnyddio'n anghyfreithlon neu'n anghywir.

4. Cwmpas

4.1. Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r canlynol:

- cyflogeion (boed yn barhaol neu dros dro) a gweithwyr;
- aelodau;
- contractwyr.

4.2. Mae cydymffurfio â'r polisi hwn yn orfodol. Os nad yw cyflogeion yn cydymffurfio, gellir ystyried hyn yn fater disgyblu.

4.3. Os oes angen rhagor o gyngor ac arweiniad arnoch chi, dylech gysylltu â'r Tîm Llywodraethu Gwybodaeth yn IG@optical.org.

5. Ein Dull Cyffredinol o Gyhoeddi a Datgelu Gwybodaeth

5.1. Rydym yn ceisio rheoleiddio mewn ffordd agored, dryloyw a chymesur – mae hyn yn berthnasol i'n holl swyddogaethau statudol.

5.2. Rydym yn datgelu gwybodaeth yn unol â'n dyletswyddau statudol yn Neddf Optegwyr 1989. Yn unol ag Adran 13C(3) o Ddeddf Optegwyr 1989, gall y Cyngor Optegol Cyffredinol ddatgelu unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â'r canlynol i unrhyw berson:

- addaswydd optometrydd cofrestredig neu optegydd cyflenwi cofrestredig i ymarfer;
- addaswydd busnes cofrestredig i gynnal busnes;
- addaswydd myfyriwr cofrestredig i ymgymryd â hyfforddiant,

sydd er budd y cyhoedd yn ehangach yn ein barn ni.

5.3. Rydym hefyd yn ddarostyngedig i amrywiaeth o ddyletswyddau deddfwriaethol fel (ond heb fod yn gyfyngedig i) y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a Deddf Diogelu Data 2018, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Hawliau Dynol 1998, a Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998.

5.4. Rydym yn ystyried bod rhywbeth o fudd i'r cyhoedd os gallai fod o fudd i'r gymuned ehangach. Wrth asesu budd y cyhoedd, byddwn yn ystyried yr holl ffactorau perthnasol, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, nifer y bobl y mae'n effeithio arnynt, eu hoedran a/neu a ydynt yn agored i niwed, unrhyw effaith ehangach ar iechyd a diogelwch, a gweinyddu cyfiawnder. Gallai budd y cyhoedd ei gwneud yn ofynnol i ni wneud datgeliad i'r GIG, y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, yr heddlu, gwasanaethau cymdeithasol, rheoleiddwyr eraill, a'r Ysgrifennydd Gwladol dros lechyd a Gofal Cymdeithasol, ymysg eraill. Mae hyn yn berthnasol i wybodaeth bersonol a masnachol.

5.5. Mae'r wybodaeth Addaswydd i Ymarfer sy'n cael ei chyhoeddi'n darparu manylion gwerthfawr am y safonau a ddisgwyllir gan ein cofrestryddion, mae'n helpu i gynnal hyder y cyhoedd yn y proffesiynau rydym yn eu rheoleiddio, ac yn helpu'r cyhoedd i wneud dewisiadau gwybodus. Rhaid i'r hyn rydym yn ei gyhoeddi fod yn gywir, yn berthnasol ac yn gymesur a rhaid iddo ystyried buddiannau'r cofrestreion a phobl eraill sy'n rhan o'r broses. Er enghraifft, nid ydym yn cyhoeddi nac yn datgelu gwybodaeth am gamau cynnar ymchwiliadau Addaswydd i Ymarfer fel mater o drefn.

Rhyddid Gwybodaeth

5.6. Fel rhan o'n dyletswyddau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, rydym yn cyhoeddi ac yn darparu gwybodaeth benodol fel mater o drefn – rydym yn egluro hyn yn ein Cynllun Cyhoeddi. I gael rhagor o wybodaeth, cyfeiriwch at ein Polisi Rhyddid

Gwybodaeth. Mae'r polisïau hyn, a'n Polisi Diogelu Data, ar gael ar wefan y Cyngor Optegol Cyffredinol yn yr adran "Amdanom ni".

5.7. Rhaid i ni ddatgelu gwybodaeth benodol os byddwn yn cael ceisiadau gan aelodau o'r cyhoedd. Gellir anfon y ceisiadau hyn dros e-bost at IG@optical.org.

5.8. Bydd ceisiadau'n cael eu hadolygu fesul achos a bydd y ddyletswydd i fod yn agored ac yn dryloyw yn cael ei chydbwyso yn erbyn y rhwymedigaeth i ddiogelu data personol a chategori arbennig o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a'r Ddeddf Diogelu Data.

5.9. Mae gan y Cyngor Optegol Cyffredinol yr hawl i wrthod rhyddhau data personol neu wybodaeth arall os yw'n dod o dan un o'r eithriadau yn y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Ddeddf Diogelu Data. Er enghraifft, gallai hyn fod oherwydd ei fod yn cael ei ddarparu'n gyfrinachol neu oherwydd y gallai ei ddatgelu effeithio ar ein gallu i gyflawni ein rôl fel rheoleiddiwr.

5.10. Rydym yn ystyried budd y cyhoedd wrth gyhoeddi neu ddatgelu gwybodaeth bersonol a/neu fasnachol sensitif. Rydym yn ystyried ein prif amcanion fel rheoleiddiwr gofal iechyd a'r gyfraith berthnasol, lle bo hynny'n briodol, i bennu a ddylid cyhoeddi neu ddatgelu gwybodaeth.

5.11. Rydym yn cyhoeddi enwau aelodau o uwch dîm rheoli'r Cyngor Optegol Cyffredinol, aelodau'r Cyngor a'r Pwyllgor, a rhai contractwyr, ar ein gwefan. Efallai y byddwn yn datgelu enwau unigolion eraill os yw hyn er budd y cyhoedd.

5.12. Mae enwau'r Archwilwyr Achos yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor Optegol Cyffredinol. Ni fyddwn yn cyhoeddi unrhyw wybodaeth am Archwilwyr Achos unigol sy'n ymwneud ag achos penodol fel mater o drefn, ond efallai y byddwn yn datgelu'r wybodaeth hon os ydym o'r farn ei bod er budd y cyhoedd.

Cais am Fynediad at Ddata gan y Testun

5.13. Mae'n ofynnol i'r Cyngor Optegol Cyffredinol gasglu, prosesu a chadw data personol (gan gynnwys data categori arbennig) i gydymffurfio â'i rwymedigaethau cyfreithiol a rheoleiddiol.

5.14. Mae'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a'r Ddeddf Diogelu Data yn rhoi'r hawl i unigolyn gael gwybod pa wybodaeth bersonol mae'r Cyngor Optegol Cyffredinol wedi bod yn ei phrosesu a sut mae cael copi o'r wybodaeth honno. Gelwir y cais hwn yn "cais am fynediad at ddata gan y testun".

5.15. Bydd y Cyngor Optegol Cyffredinol yn ystyried ac yn ymateb i gais am fynediad at ddata gan y testun yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, y Ddeddf Diogelu Data, Polisi Diogelu Data'r Cyngor Optegol Cyffredinol ac arweiniad y Comisiynydd Gwybodaeth ar gyfer awdurdodau cyhoeddus.

5.16. Gellir gwneud cais am fynediad at ddata gan y testun ar lafar neu'n ysgrifenedig a bydd y Cyngor yn cymryd camau i ddysgu pwy yw'r sawl sy'n gwneud y cais i osgoi anfon data personol am un unigolyn at rywun arall.

5.17. Gellir gwrthod cais am fynediad at ddata gan y testun os nad yw'r Cyngor Optegol Cyffredinol yn cadw'r wybodaeth neu os yw'n cael ei ystyried yn eithriad o dan y Ddeddf Diogelu Data. Mae rhagor o wybodaeth am y ffordd rydym yn prosesu cais am fynediad at ddata gan y testun ar gael yn ein Polisi Diogelu Data.

6. Gwybodaeth gan sefydliadau eraill

6.1. Nid ydym fel arfer yn datgelu gwybodaeth am sefydliadau eraill, er enghraifft y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Dylid cyfeirio ceisiadau am wybodaeth o'r fath at y sefydliad cyfrifol.

7. Datgeliadau yn y broses addasrwydd i ymarfer

7.1. Mae'r adran hon yn amlinellu'r datgeliadau arferol rydym yn eu gwneud fel rhan o'n proses Addasrwydd i Ymarfer. Bydd unrhyw geisiadau ar wahân i'r rhai a nodir isod yn cael eu hystyried fesul achos, yn unol â'r polisi hwn a'r ddeddfwriaeth berthnasol.

7.2. Mae ymchwiliad addasrwydd i ymarfer yn cynnwys y canlynol:

- ymchwiliad cychwynnol gan y Cofrestrydd;
- ystyried yr honiad gan yr Archwilwyr Achos neu'r Pwyllgor Ymchwilio;
- ystyried yr honiad gan y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer.

7.3. Mae gennym ddyletswydd statudol i roi gwybod i'r Ysgrifennydd Gwladol dros lechyd a Gofal Cymdeithasol ein bod ni wedi agor ymchwiliad Addasrwydd i Ymarfer.

Yn ystod ymchwiliad

7.4. Mae gennym ddyletswydd statudol i roi gwybod i'r cofrestrai ein bod ni wedi cael honiad o ddiffyg Addasrwydd i Ymarfer. Fel arfer, byddwn yn rhoi copi o'r ffurflen gwyno i'r cofrestrai, wedi'i golygu fel y bo'n briodol.

7.5. Efallai y bydd amgylchiadau lle na allwn ddarparu copi o'r ffurflen gwyno neu os ydym o'r farn ei bod yn briodol amlinellu'r honiad yn hytrach na darparu copi o'r ffurflen gwyno, er enghraifft:

- bod ymchwiliad yn cael ei gynnal (ee gan Ymddiriedolaeth GIG neu'r heddlu) a allai gael ei beryglu drwy ddatgelu'r ffurflen gwyno;
- gallai datgelu roi person mewn perygl;
- rydym am sicrhau bod gweithdrefnau diogelu ar waith;
- bod rhesymau dros gadw hunaniaeth yr achwynydd yn gyfrinachol (er enghraifft, chwythwr chwiban);
- byddai datgelu'n amhriodol am resymau eraill, er enghraifft, pan fo'r achos yn ymwneud â mwy nag un cofrestrai.

7.6. Byddwn yn rhoi gwybod i'r achwynydd ein bod ni wedi agor ymchwiliad a beth yw enw'r cofrestrai/cofrestreion rydym wedi agor ymchwiliad yn eu herbyn.

7.7. Mae gennym ddyletswydd statudol i roi gwybod i gyflogwr y cofrestrai am ymchwiliad. Os yw'n briodol, rydym fel arfer yn darparu gwybodaeth gyfyngedig i'r canlynol:

- y rheini sy'n cyflogi'r cofrestrai o dan gontract cyflogaeth;
- y rheini sy'n ymrwymo'r cofrestrai i ddarparu gwasanaethau, gan gynnwys gwasanaethau locwm.

7.8. Byddwn hefyd yn rhoi gwybod i gyflogwr/cyflogwyr y cofrestrai a yw'n destun gorchymyn interim gan y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer.

7.9. Os yw'r cofrestrai ar y Rhestr Cyflawnwyr, gallwn hefyd roi gwybod i GIG Lloegr a'r holl sefydliadau perthnasol eraill am yr ymchwiliad os ydym o'r farn bod hyn er budd y cyhoedd. Byddwn hefyd yn rhoi gwybod i sefydliadau perthnasol os yw'r cofrestrai'n destun gorchymyn interim neu os yw'r mater wedi cael ei gyfeirio gan yr Archwilwyr Achos/Pwyllgor Ymchwilio/Cofrestrydd (y rhai sy'n gwneud y penderfyniadau rhagarweiniol) ar gyfer prif wrandawriad gerbron y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer.

7.10. Os yw'r materion sy'n ymwneud â'r ymchwiliad eisoes yn gyhoeddus, efallai y byddwn yn penderfynu er budd y cyhoedd i gadarnhau'n gyhoeddus bod ymchwiliad yn mynd rhagddo a/neu y gellir ceisio gorchymyn atal dros dro neu orchymyn amodau interim.

7.11. Os bydd trydydd parti yn gofyn am gael gweld ymateb y cofrestrai i honiadau, byddwn yn ystyried hyn fesul achos. Cyn i ni ddatgelu'r wybodaeth hon, byddwn yn gofyn am ganiatâd ysgrifenedig y cofrestrai i'w datgelu. Fodd bynnag, efallai y byddwn yn datgelu'r wybodaeth hon heb ganiatâd os bydd gwneud hynny er budd y cyhoedd, yn enwedig mewn perthynas â diogelwch y cyhoedd.

7.12. Ni fyddwn yn datgelu pwy yw unrhyw un a warchodir gan y Ddeddf, oni bai fod budd cryf o ran diogelu'r cyhoedd neu os bydd llys yn gorchymyn i ni ddatgelu hyn. Byddwn bob amser yn gofyn am ganiatâd ysgrifenedig gan y person yn gyntaf, a byddwn yn rhoi gwybod iddo os bydd yn rhaid i ni ddatgelu pwy ydyw heb ei ganiatâd mewn amgylchiadau eithriadol.

Ar ddiwedd yr ymchwiliad

7.13. Cyn i'r rhai sy'n gwneud y penderfyniadau rhagarweiniol ystyried honiad, byddwn yn datgelu i'r cofrestrai yr holl ddogfennau neu wybodaeth sy'n berthnasol i'r honiad yr ydym yn bwriadu ei roi gerbron y rhai sy'n gwneud y penderfyniadau rhagarweiniol, yn unol â'n Rheolau.

7.14. Byddwn yn datgelu sylwadau'r cofrestrai i'r achwynydd (oni bai ein bod o'r farn y byddai hyn yn amhriodol) a byddwn yn datgelu sylwadau'r achwynydd i'r cofrestrai.

7.15. Byddwn ond yn rhoi dogfennau gerbron y rhai sy'n gwneud y penderfyniadau rhagarweiniol os yw'r cofrestrai wedi'u gweld, oni bai ein bod o'r farn na fyddai peidio â datgelu'n rhoi'r cofrestrai dan unrhyw anfantais. Er enghraifft, ni fyddwn bob amser yn rhoi copi i'r cofrestrydd o gais cychwynnol i ailagor penderfyniad yr Archwilwyr Achos o dan Reol 15 o Reolau Addasrwydd i Ymarfer 2013.

Canlyniadau'r rhai sy'n gwneud y penderfyniadau rhagarweiniol

7.16. Byddwn yn datgelu'r penderfyniad rhagarweiniol llawn i'r cofrestrai a'r achwynydd yn unig.

7.17. Byddwn yn rhoi gwybod i'r cyflogwr, y tystion a rhanddeiliaid perthnasol eraill pan fydd y rhai sy'n gwneud y penderfyniad rhagarweiniol wedi cau achos neu wedi'i gyfeirio ar gyfer gwrandawriad.

7.18. Byddwn yn datgelu rhybuddion gan Archwilwyr Achos neu'r Pwyllgor Ymchwilio i'r cofrestrai a'r achwynydd yn unig.

7.19. Yn amodol ar Baragraff **6.10**, ni fyddwn yn cyhoeddi gwybodaeth ar ein gwefan cyn i'r rheini sy'n gwneud y penderfyniadau rhagarweiniol ei hystyried.

Gorchmynion interim

7.20. Pan fo angen er mwyn diogelu'r cyhoedd, er budd y cofrestrai neu fel arall er budd y cyhoedd, gallwn wneud cais am orchymyn interim. Gallai hyn olygu bod cofrestrai yn cael ei roi o dan amodau neu'n cael ei atal dros dro wrth i'r prif ymchwiliadau gael eu cynnal.

7.21. Cynhelir gwrandawiadau gorchmynion interim yn breifat. Nid ydym yn cyhoeddi hysbysiadau o wrandawiadau gorchmynion interim newydd. Fodd bynnag, rydym yn cyhoeddi hysbysiadau o adolygiadau gwrandawiadau gorchmynion interim.

7.22. Mae'r tabl isod yn nodi am ba hyd y bydd penderfyniadau'n cael eu dangos ar wefan y Cyngor Optegol Cyffredinol a'u nodi ar y gofrestr (lle bo hynny'n berthnasol):

Tabl o ganlyniadau gwrandawiadau gorchymyn interim		
Senario	Gwrandawiadau Blaenorol (gwefan)	Cofnod ar y gofrestr
Gosod gorchymyn interim	Cyhoeddi crynodeb o'r penderfyniad nes bod y gorchymyn interim yn cael ei adolygu, ei ddirymu neu'n dod i ben (pa un bynnag yw'r cynharaf)	Atodi crynodeb o'r penderfyniad nes bod y gorchymyn interim yn cael ei adolygu, ei ddirymu neu'n dod i ben (pa un bynnag yw'r cynharaf)
Adolygu'r gorchymyn interim a pharhau ag ef, ei olygu neu ei ddisodli gyda gorchymyn interim arall	Cyhoeddi crynodeb o'r penderfyniad nes bod y gorchymyn interim yn cael ei adolygu, ei ddirymu neu'n dod i ben (pa un bynnag yw'r cynharaf) Tynnu'r crynodeb blaenorol o'r penderfyniad	Atodi crynodeb o'r penderfyniad nes bod y gorchymyn interim yn cael ei adolygu, ei ddirymu neu'n dod i ben (pa un bynnag yw'r cynharaf) Tynnu'r crynodeb blaenorol o'r penderfyniad

Diddymu gorchymyn interim	Nid yw'n cael ei gyhoeddi oni bai fod y cofrestrai wedi cydsynio'n ysgrifenedig ac, yn yr achos hwnnw, cyhoeddi crynodeb o'r penderfyniad am dri mis o'r dyddiad y gwnaed y penderfyniad Tynnu'r crynodeb blaenorol o'r penderfyniad	Heb ei atodi Tynnu'r crynodeb blaenorol o'r penderfyniad
Heb osod gorchymyn interim	Heb ei gyhoeddi	Heb ei atodi

Croes-ddatgeliad

7.23. Gall rhai cwynion arwain at ymchwiliad yn erbyn cofrestrai/cofrestreion eraill. Yn yr achosion hyn, byddwn yn ystyried pa wybodaeth i'w datgelu i'r cofrestrai/cofrestreion eraill.

7.24. Byddwn yn rhoi gwybod i'r cofrestrai am ein cynnig i rannu gwybodaeth a gwahodd eu sylwadau. Byddwn wedyn yn ystyried y sylwadau hyn ochr yn ochr â budd y cyhoedd a buddiannau cofrestrai/cofrestreion eraill.

Asesiadau iechyd

7.25. Bydd adroddiadau meddygol yn cael eu datgelu i'r rhai sy'n gwneud y penderfyniadau rhagarweiniol, gweithwyr y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer a'r Cyngor Optegol Cyffredinol sydd ag angen busnes clir (wedi'u golygu fel y bo'n briodol).

7.26. Ni fyddwn yn datgelu cofnodion meddygol y cofrestrai i unrhyw drydydd parti oni bai fod budd cyhoeddus mewn gwneud hynny.

7.27. Byddwn yn sicrhau bod cofnodion meddygol yn cael eu storio'n ddiogel yn unol â'r GDPR a'r Ddeddf Diogelu Data.

7.28. Bydd cofnodion meddygol yn cael eu dychwelyd i'r deiliaid cofnodion gwreiddiol drwy eu danfon yn ddiogel (neu, yn achos cofnodion copi, eu dinistrio'n ddiogel) ar ôl i'r mater neu unrhyw apel gysylltiedig ddod i ben, yn unol â'r Amserlen Cadw Data.

Asesiadau perfformiad

7.29. Pan fydd cofrestrai'n destun asesiad perfformiad, ni fyddwn yn datgelu i'r cleifion ein bod ni'n ymchwilio i'r cofrestrai.

7.30. Bydd adroddiad yr asesydd perfformiad a dogfennau cysylltiedig yn cael eu datgelu i'r rhai sy'n gwneud y penderfyniadau rhagarweiniol, gweithwyr y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer a'r Cyngor Optegol Cyffredinol sydd ag angen busnes clir (wedi'u golygu fel y bo'n briodol).

Y Pwyllgor Addaswydd i Ymarfer

7.31. Ar ôl cyfeirio'r honiad at y Pwyllgor Addaswydd i Ymarfer, byddwn yn cyflwyno dogfennau perthnasol am y cofrestrai a/neu ei gynrychiolydd. Mae gennym ddyletswydd barhaus i ddatgelu drwy gydol y broses Addaswydd i Ymarfer. Pan fydd unrhyw wybodaeth newydd yn dod i law, byddwn yn ystyried a ddylid datgelu hyn. Mae rhagdybiaeth o blaid datgelu, yn amodol ar fudd y cyhoedd.

7.32. Byddwn yn cyhoeddi'r wybodaeth ganlynol ar ein gwefan cyn y prif wrandawriad:

- enw'r sawl sydd wedi cofrestru;
- rhif cofrestru'r unigolyn;
- dyddiad y gwrandawriad ac ym mhle y bydd yn cael ei gynnal;
- enwau aelodau'r Pwyllgor, y cynghorwr cyfreithiol a'r ymgynghorydd clinigol (lle bo hynny'n berthnasol);
- manylion yr honiad(au) (ac eithrio materion iechyd).

7.33. Mae'r rhan fwyaf o wrandawiadau'r Pwyllgor Addaswydd i Ymarfer yn cael eu cynnal yn gyhoeddus. Cynhelir gwrandawiadau sy'n ymwneud ag iechyd yn breifat. Mae rhai achosion yn ymwneud â mwy nag un mater, er enghraifft ymddygiad ac iechyd. Mewn achosion o'r fath, bydd y Pwyllgor Addaswydd i Ymarfer yn clywed cymaint ag sy'n briodol o'r achos yn gyhoeddus a bydd yn clywed materion sensitif, fel y rheini sy'n ymwneud ag iechyd, yn breifat. Ni fydd y penderfyniad yn cynnwys manylion yr honiadau sy'n ymwneud ag iechyd.

7.34. Pan fydd gwybodaeth am iechyd neu fater sensitif arall yn cael ei datgelu yn ystod unrhyw ran o wrandawriad, bydd yr wybodaeth honno'n cael ei dileu o'r penderfyniad cyn ei chyhoeddi.

7.35. Byddwn yn rhoi gwybod i'r cofrestrai, yr achwynydd, yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ac unrhyw unigolion a sefydliadau perthnasol eraill, er enghraifft tystion, am ganlyniad y Pwyllgor Addaswydd i Ymarfer. Efallai y byddwn yn eu cyfeirio at yr adran gwrandawiadau blaenorol ar ein gwefan, i weld y penderfyniad. Bydd y penderfyniad hefyd yn cael ei rannu â chyflogeion y Cyngor Optegol Cyffredinol sydd ag angen busnes clir.

7.36. Yn yr adran Gwrandawiadau Blaenorol ar ein gwefan, rydym yn cyhoeddi penderfyniadau gwrandawiadau'r Pwyllgor Addaswydd i Ymarfer (gyda rhai eithriadau), gan gynnwys gwrandawiadau sy'n cael eu trin drwy Ddatrysiad Panel Cytunedig.

7.37. Mae'r tablau isod yn rhestru'r penderfyniadau a fydd yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan a/neu eu cofnodi ar y gofrestr, a'r cyfnod amser lle bo hynny'n berthnasol.

7.38. Mae'r tablau hefyd yn nodi'r amgylchiadau lle na fyddwn yn cyhoeddi penderfyniad heb ganiatâd ysgrifenedig y cofrestreion. Mewn achosion o'r fath, byddwn yn rhoi gwybod i'r achwynydd am y canlyniad ond ni fyddwn yn rhannu'r penderfyniad oni bai fod y cofrestrai'n cydsynio'n ysgrifenedig.

Tabl canlyniadau prif wrandawiadau		
Senario	Gwrandawiadau Blaenorol (gwefan)	Cofnod ar y gofrestr
Dim achos i'w ateb	Heb ei gyhoeddi oni bai fod y cofrestrai wedi cydsynio'n ysgrifenedig ac, yn yr achos hwnnw, cyhoeddi penderfyniad yr achos am dri mis o'r dyddiad y gwnaed y penderfyniad	Heb ei atodi
Yr achos i'w ateb ond Ffeithiau heb eu profi	Heb ei gyhoeddi oni bai fod y cofrestrai wedi cydsynio'n ysgrifenedig ac, yn yr achos hwnnw, cyhoeddi penderfyniad yr achos am dri mis o'r dyddiad y gwnaed y penderfyniad	Heb ei atodi
Ffeithiau wedi'u profi ond heb ganfod achos o gamymddwyn, perfformiad proffesiynol diffygiol, collfarn, iechyd gwael neu sail arall dros amhariad (13D Deddf Optegwyr 1989)	Heb ei gyhoeddi oni bai fod y cofrestrai wedi cydsynio'n ysgrifenedig ac, yn yr achos hwnnw, cyhoeddi penderfyniad yr achos am dri mis o'r dyddiad y gwnaed y penderfyniad	Heb ei atodi
Wedi canfod camymddygiad (neu sail arall dros amhariad) ond dim amhariad na rhybudd	Cyhoeddi'r penderfyniad am dri mis o'r dyddiad y gwnaed y penderfyniad	Heb ei atodi
Dim amhariad ac wedi rhoi rhybudd	Cyhoeddi penderfyniad am o leiaf 12 mis o'r dyddiad y gwnaed y penderfyniad, neu am gyfnod y rhybudd os yw'n hirach na 12 mis	Atodi'r penderfyniad am gyfnod y rhybudd
Amhariad Dim cosb	Cyhoeddi'r penderfyniad am dri mis o'r dyddiad y gwnaed y penderfyniad	Heb ei atodi

Amhariad a chosb ariannol	Cyhoeddi'r penderfyniad am ddeuddeg mis o'r dyddiad y gwnaed y penderfyniad	Atodi'r penderfyniad am ddeuddeg mis o'r dyddiad y gwnaed y penderfyniad
Amhariad ac amodau	Cyhoeddi'r penderfyniad am o leiaf 12 mis o'r dyddiad y gwnaed y penderfyniad, neu am gyfnod yr amodau os yw'n hirach na 12 mis	Atodi'r penderfyniad am gyfnod yr amodau
Amhariad ac atal dros dro	Cyhoeddi'r penderfyniad am o leiaf 12 mis o'r dyddiad y gwnaed y penderfyniad, neu am y cyfnod atal dros dro os yw'n hirach na 12 mis	Atodi'r penderfyniad am y cyfnod atal dros dro
Amhariad a dileu	Cyhoeddi'r penderfyniad am bum mlynedd o'r dyddiad y gwnaed y penderfyniad (oni bai ei fod wedi'i adfer o fewn pum mlynedd, gweler yr adran isod ar adfer)	Atodi'r penderfyniad hyd nes y bydd enw'r cofrestrai yn cael ei dynnu oddi ar y gofrestr
Dileu cofrestriad arbenigol	Cyhoeddi'r penderfyniad am dri mis o'r dyddiad y gwnaed y penderfyniad	Heb ei atodi

Tabl canlyniadau prif wrandawiadau adolygu		
Senario	Gwrandawiadau Blaenorol (gwefan)	Cofnod ar y gofrestr
Dirymu Gorchymyn	Cyhoeddi'r penderfyniad am o leiaf tri mis o'r dyddiad y gwnaed y penderfyniad, neu am gyfnod yr amodau neu'r atal dros dro os yw'n hirach Tynnu'r penderfyniad blaenorol	Heb ei atodi Tynnu'r penderfyniad blaenorol
Amodau	Cyhoeddi'r penderfyniad nes bydd y prif orchymyn yn cael ei adolygu nesaf, neu pan fydd yn cael ei ddirymu neu'n dod i ben (pa un bynnag yw'r cynharaf) Tynnu'r penderfyniad blaenorol	Atodi'r penderfyniad am gyfnod yr amodau Tynnu'r penderfyniad blaenorol
Atal am Gyfnod Penodol	Cyhoeddi'r penderfyniad nes bydd y prif orchymyn yn cael ei adolygu nesaf, neu pan fydd yn cael ei ddirymu neu'n dod i ben (pa un bynnag yw'r cynharaf) Tynnu'r penderfyniad blaenorol	Atodi'r penderfyniad am y cyfnod atal dros dro Tynnu'r penderfyniad blaenorol
Atal am Gyfnod Amhenodol	Cyhoeddi penderfyniad am uchafswm o 12 mis (neu hyd nes y caiff y prif orchymyn ei adolygu neu ei ddirymu, os yw'n gynharach na 12 mis) Tynnu'r penderfyniad blaenorol	Atodi'r penderfyniad am y cyfnod cofrestru Tynnu'r penderfyniad blaenorol
Cosb ariannol	Cyhoeddi'r penderfyniad am ddeuddeg mis o ddyddiad gosod y cosb ariannol	Atodi'r penderfyniad am ddeuddeg mis o ddyddiad gosod y cosb ariannol

	Tynnu'r penderfyniad blaenorol	Tynnu'r penderfyniad blaenorol
Dileu	Cyhoeddi'r penderfyniad am bum mlynedd o'r dyddiad y gwnaed y penderfyniad i ddileu (oni bai ei fod wedi'i adfer o fewn pum mlynedd, gweler yr adran isod ar adfer) Tynnu'r penderfyniad blaenorol	Atodi'r penderfyniad hyd nes y bydd enw'r cofrestrai yn cael ei dynnu oddi ar y gofrestr Tynnu'r penderfyniad blaenorol

7.39. Pan fydd yr achos yn cael ei atal neu ei ohirio'n rhannol, ni fyddwn yn cyhoeddi'r penderfyniad ar gyfer y rhan(nau) o'r achos sydd wedi dod i ben, a byddwn yn aros am y penderfyniad terfynol (os oes un). Ni fydd unrhyw beth yn cael ei gyhoeddi os nad oes penderfyniad terfynol, er enghraifft os oes cyfnod amhenodol.

7.40. Pan fydd y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer yn gwahardd cofrestriad unigolyn neu'n dileu ei gofrestriad arbenigol ar unwaith, bydd y cyfarwyddyd hwn yn cael ei gynnwys yn y penderfyniad a gyhoeddwyd ac yn yr wybodaeth sydd ynghlwm wrth y cofnod cofrestru.

7.41. Os yw'r Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer yn penderfynu dileu, atal dros dro neu roi dirwy, neu os yw o fudd sylweddol i'r cyhoedd, efallai y byddwn yn cyhoeddi datganiad i'r wasg. Ni fydd y datganiad i'r wasg yn cynnwys gwybodaeth gyfrinachol am iechyd neu faterion eraill nad ydynt er budd y cyhoedd. Bydd y datganiad i'r wasg yn aros ar ein gwefan cyhyd â'r penderfyniad.

Y Pwyllgor Apeliadau Cofrestru

7.42. Mae'r Pwyllgor Apeliadau Cofrestru yn apelio yn erbyn penderfyniadau cofrestryddion y mae modd apelio yn eu herbyn.

7.43. Mae'r Pwyllgor hefyd yn gwrandao ar geisiadau adfer gan gyn gofrestreion a gafodd eu dileu yn ôl cyfarwyddyd y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer. Gellir gwneud ceisiadau o'r fath 22 mis ar ôl eu dileu.

7.44. Nid ydym yn cyhoeddi hysbysiadau am wrandawiaidau'r Pwyllgor Apeliadau Cofrestru.

7.45. Ni fyddwn yn cyhoeddi'r penderfyniad llawn os oedd yr apêl aflwyddiannus gan ymgeisydd sy'n fyfyrwr. Dim ond crynodeb y byddwn yn ei gyhoeddi.

7.46. Os byddwn yn penderfynu nad yw cyhoeddi penderfyniad apêl er budd y cyhoedd, dim ond crynodeb y byddwn yn ei gyhoeddi.

7.47. Mae'r tablau isod yn rhestru penderfyniadau'r Pwyllgor Apeliadau Cofrestru a fydd yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan, a'r cyfnod amser lle bo hynny'n berthnasol.

Tabl canlyniadau gwrandawiadau'r Pwyllgor Apeliadau Cofrestru		
Senario	Gwrandawiadau Blaenorol (gwefan)	Cofnod ar y gofrestr
Caniatáu apêl	Heb ei gyhoeddi oni bai fod y sawl sy'n apelio wedi cydsynio'n ysgrifenedig ac, yn yr achos hwnnw, cyhoeddi penderfyniad yr achos am dri mis o'r dyddiad y gwnaed y penderfyniad	Heb ei atodi
Gwrthod yr apêl (mae'r sawl sy'n apelio'n unigolyn neu'n fusnes cwbl gymwys)	Cyhoeddi'r penderfyniad am ddeuddeg mis o'r dyddiad y gwnaed y penderfyniad	Heb ei atodi
Gwrthod yr apêl (mae'r sawl sy'n apelio'n fyfyrwr)	Heb ei gyhoeddi oni bai fod y sawl sy'n apelio wedi cydsynio'n ysgrifenedig ac, yn yr achos hwnnw, cyhoeddi crynodeb o benderfyniad yr achos am dri mis o'r dyddiad y gwnaed y penderfyniad	Heb ei atodi
Caniatáu adfer	Cyhoeddi'r penderfyniad am ddeuddeg mis o'r dyddiad y gwnaed y penderfyniad. Cael gwared ar y penderfyniad i ddileu.	Heb ei atodi
Gwrthod adfer	Cyhoeddi'r penderfyniad am ddeuddeg mis o'r dyddiad y gwnaed y penderfyniad. Y penderfyniad dileu yn aros ar y wefan am bum mlynedd o'r dyddiad y gwnaed y penderfyniad (lle bo hynny'n berthnasol)	Heb ei atodi

Trawsgrifiadau gwrandawiadau

7.48. Nid ydym yn cyhoeddi trawsgrifiadau gwrandawiadau. Rhaid i unrhyw geisiadau am drawsgrifiadau gael eu gwneud yn ysgrifenedig a byddant yn cael eu hystyried o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

7.49. Gellir gwneud ceisiadau drwy'r ffurflen gais am drawsgrifiad o wrandawriad ar ein gwefan, a dylid ei hanfon dros e-bost at y Rheolwr Gwrandawiadau yn hearings.optical.org. Yn amodol ar dalu costau rhesymol, byddwn yn datgelu trawsgrifiad (a olygwyd i ddileu unrhyw achos a gynhelir yn breifat) o benderfyniad ar ein gwefan. Bydd trawsgrifiadau eraill (a olygwyd fel y bo'n briodol) yn cael eu datgelu dim ond os yw hyn er budd y cyhoedd.

7.50. Ni fyddwn yn datgelu trawsgrifiadau o wrandawiadau preifat oni bai y byddai hyn er budd y cyhoedd.

7.51. Pan fydd gwrandawriad yn cael ei ohirio ar ôl ei glywed yn rhannol, byddwn yn darparu trawsgrifiad i'r cofrestrai a/neu ei gynrychiolydd, panel y gwrandawriad, y cynghorydd cyfreithiol, y cynghorydd clinigol (lle bo'n berthnasol), cyflwynydd achos y Cyngor Optegol Cyffredinol a gweithwyr y Cyngor Optegol Cyffredinol sydd ag angen busnes clir.

7.52. Nid ydym yn datgelu recordiadau sain o unrhyw wrandawiadau.

Apeliadau'r Uchel Lys

7.53. Pan fydd y cofrestrai neu'r Awdurdod Safonau Proffesiynol yn apelio yn erbyn penderfyniad y Pwyllgor Addaswydd i Ymarfer neu'r Pwyllgor Apeliadau Cofrestru, bydd y dyfarniad gwreiddiol yn cael ei ddiweddarau gyda hysbysiad yn datgan bod apêl wedi'i gwneud.

7.54. Os bydd yr apêl yn arwain at y Llys yn gosod cosb wahanol, byddwn yn dileu'r penderfyniad gwreiddiol ac yn cyhoeddi penderfyniad y Llys yn yr un ffordd, ac am yr un cyfnod o amser, fel petai'r penderfyniad hwnnw wedi'i wneud gan y Pwyllgor Addaswydd i Ymarfer neu'r Pwyllgor Apeliadau Cofrestru.

7.55. Os bydd y Llys yn cyfeirio achos yn ôl ar gyfer ail-wrandawriad, byddwn yn dileu'r penderfyniad gwreiddiol ac yn cyhoeddi'r penderfyniad newydd yn yr un ffordd â phenderfyniadau eraill y Pwyllgor Addaswydd i Ymarfer neu'r Pwyllgor Apeliadau Cofrestru. Os mai dim ond rhan o'r achos sy'n cael ail-wrandawriad, er enghraifft, os bydd y Pwyllgor Addaswydd i Ymarfer yn ailystyried y sancsiwn ond nid y ffeithiau, byddwn yn dileu'r rhan berthnasol o'r penderfyniad gwreiddiol ac yn parhau i gyhoeddi'r rhan dan sylw.

7.56. Bydd yr un egwyddorion yn berthnasol i apeliadau yn erbyn penderfyniad gan yr Uchel Lys, er enghraifft byddwn yn dileu penderfyniad yr Uchel Lys yn dilyn penderfyniad gan y Llys Apêl.

7.57. Os gwrthodir yr apêl a bod y penderfyniad gwreiddiol yn cael ei dderbyn, bydd y penderfyniad yn parhau i gael ei gyhoeddi yn unol â'r amserlenni a restrir uchod.

8. Cofrestr y Cyngor Optegol Cyffredinol

8.1. Rydym yn cyhoeddi cofrestr y gellir chwilio drwyddi ar-lein o'r holl optometryddion, optegwyr sy'n cyflenwi, busnesau a myfyrwyr cofrestredig. Mae hyn yn un o bileri sylfaenol proffesiwn rheoledig, ac mae'n galluogi aelodau o'r cyhoedd yn ogystal â chyflogwyr i adnabod unigolion a busnesau sydd wedi'u cofrestru'n briodol.

8.2. Fel y dangosir yn y tablau uchod, byddwn yn atodi rhai o ganlyniadau'r Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer i gofnod y cofrestrai. Bydd dolen i gael rhagor o wybodaeth am y canlyniad. Ni fydd y gofrestr yn cynnwys unrhyw wybodaeth o ran a yw'r cofrestrai ar unrhyw restr waharddedig.

9. Llythyrau o Statws Da/Tystysgrif Statws Proffesiynol

9.1. Gallwn ddarparu Llythyr o Statws Da a/neu Dystysgrif Statws Proffesiynol Presennol i'r cofrestreion presennol a blaenorol. Mae hyn yn gofyn am gais ysgrifenedig gan y cofrestrai presennol/blaenorol a thalu ffi weinyddol o £15.

9.2. Bydd y Llythyr o Statws Da / Tystysgrif Statws Proffesiynol Presennol yn cynnwys enw'r unigolyn, ei statws cofrestru presennol a'i hanes cofrestru.

10. Golygu

10.1. Rydym wedi ymrwmo i gydbwysu hawliau data unigol â chyhoeddi gwybodaeth er budd y cyhoedd, ac rydym yn deall y gall gormod o olygu effeithio ar ein gallu i ddiogelu'r cyhoedd.

10.2. Efallai y bydd angen tynnu rhywfaint o wybodaeth o ddogfennau sydd wedi'u cyhoeddi, gan gynnwys penderfyniadau ar ein gwefan. Er enghraifft, bydd enw pob tyst (ac eithrio tystion arbenigol) fel arfer yn cael ei olygu oni bai fod angen ei gyhoeddi er budd y cyhoedd.

10.3. Byddwn yn datgelu gwybodaeth sensitif neu gategori arbennig o gofnodion meddygol rydym yn eu rhannu â'r Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer, oni bai ei bod yn berthnasol i faterion sydd dan sylw yn ein trafodion.

11. Storfa Rhyngrwyd

11.1. Mae gwybodaeth yn cael ei thynnu oddi ar ein gwefan yn unol â'r polisi hwn, ond mae llawer o beiriannau chwilio ar y rhyngrwyd, fel Google a Bing, yn rheoli gwybodaeth drwy 'storio'. Mae hyn yn golygu storio cipolwg o dudalen we mewn cronfa ac yna diweddarau'r cipolwg o bryd i'w gilydd. Mae hyn yn golygu y gallai tudalennau gwe blaenorol y Cyngor Optegol Cyffredinol fod ar gael ar beiriannau chwilio ar y rhyngrwyd hyd yn oed ar ôl iddynt gael eu tynnu oddi ar ein gwefan.

11.2. Rhaid i unigolion gysylltu â'r peiriant chwilio ar y rhyngrwyd yn uniongyrchol i ofyn iddynt eu dileu, gan nad oes gennym reolaeth dros eu storfeydd. Mewn rhai amgylchiadau, er enghraifft pan fydd y storfa'n ymwneud â gwybodaeth a gyhoeddwyd gennym yn anfwriadol ar ein gwefan, gall y Cyngor Optegol Cyffredinol helpu i gysylltu â'r peiriant chwilio. Os hoffech chi gael cymorth o'r fath, cysylltwch â ni yn hearings@optical.org.

I gael rhagor o wybodaeth am y polisi hwn, cysylltwch â'r Swyddog Llywodraethu Gwybodaeth yn IG@optical.org.